| | |
|---|---|
| Senedd Cymru<br>Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau<br>Effeithiau COVID-19: Galwad Agored am dystiolaeth a phrofiadau<br>EIS(5) COV – 31<br>Ymateb gan: Vattenfall Wind Power | Welsh Parliament<br>Economy, Infrastructure and Skills Committee<br>Impacts of COVID-19: Open Call for evidence and experiences<br><br>Response from: Vattenfall Wind Power |

Date:
10/11/2020

Annwyl Mr George,

Mae Vattenfall wedi bod yn dilyn yn agos yr ymgynghoriad y mae eich Pwyllgor wedi bod yn ei gynnal i effeithiau pandemig Covid-19. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys "mesurau a gymerwyd i arafu'r lledaeniad; a chymorth sy'n cael ei gynnig i'r bobl, y cwmnïau a'r sefydliadau yn ystod y pandemig".

Mae ein fferm wynt flaenllaw ar y tir ym Mhen-y-Cymoedd yn cynnwys cymunedau gogledd Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Rwyf wedi atodi tystiolaeth o'r ffordd y mae ein CIC wedi bod yn dosbarthu Cronfeydd Budd Cymunedol Vattenfall yn ystod Covid-19. Arddangosir y manylion fesul Wardiau awdurdodau lleol yng Nghynghorau Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd a Phort Talbot, ac maent yn gwahaniaethu rhwng y cyllid ar gyfer busnesau a gweithgareddau cymunedol, i helpu'ch dadansoddiadau.

Dymuna Vattenfall dynnu sylw eich Pwyllgor at y cyllid sydd wedi'i ddosbarthu mewn ymateb i effeithiau'r feirws Covid-19, a'i gyfnodau clo. Yn wir, mae'n parhau i ddosbarthu'r cyllid hanfodol hwn i'r cymunedau bywiog ond difreintiedig hyn. Bydd angen mesur effaith gymdeithasol ac economaidd cefnogi busnesau a sefydliadau i ddarparu gwasanaethau a chadw sefydliadau i fynd yn ystod cyfnod mor heriol, yn ei dro. Am nawr rydym yn falch bod ein cronfa Pen-y-Cymoedd wedi gallu chwistrellu arian parod i galon economi'r Cymoedd. Mae'n bleser gan Vattenfall nodi, yn yr Ymateb Ysgrifenedig ar 17eg Gorffennaf gan Lywodraeth Cymru i'ch Adroddiad: "Effaith Covid-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol", pwysleisiodd Llywodraeth Cymru, wrth dderbyn yr argymhelliad cyntaf, fod Covid yn cyflymu llawer o'r heriau tymor hir yr oeddem eisoes yn gwybod eu bod yn bodoli cyn y feirws, gan gynnwys yr argyfwng hinsawdd a'r angen am ddatgarboneiddio diwydiant ar frys".

Mae Vattenfall hefyd yn falch o ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad eich Pwyllgor ar Ddatgarboneiddio Trafnidiaeth ynghylch rhedeg fflydoedd cerbydau cwbl drydanol yng Nghymru (Argymhelliad 1) gan ddatgan "byddwn hefyd yn ymchwilio i sut y gall cynhyrchu adnewyddadwy a storio gynorthwyo gyda chadernid grid".

Roedd cyflwyno tystiolaeth RTPI i'ch Pwyllgor ar Effeithiau Covid-19 yn mynd i'r afael â rôl cynllunio mewn adferiad cadarn a chynhwysol yng Nghymru. Mae Vattenfall yn cymeradwyo'r dystiolaeth honno, ac yn ailadrodd pwysigrwydd ein

dyfodol economaidd wrth ymateb i'r heriau amgylcheddol a gynrychiolir gan yr Argyfwng Hinsawdd. Yn ein barn ni, mae taer angen yn awr i Lywodraeth Cymru roi hwb i'r diwydiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gan alluogi creu cysylltiad tryloyw a chredadwy rhwng y targedau y mae'n eu gosod i ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd, a'u cyflawni.
Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei "Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd" yn ceisio ailgyfeirio polisi economaidd tuag at heriau hirdymor, megis yr argyfwng hinsawdd, yr angen am ddatgarboneiddio diwydiant ar frys, a gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Vattenfall yn croesawu'r datganiad ar dudalen 33 o'r cynllun, y bydd Llywodraeth Cymru yn "gweithio gyda datblygwyr, rheoleiddwyr a darparwyr seilwaith ynni i sicrhau bod ynni carbon isel yn cael ei gynhyrchu cyn gynted â phosibl". Yn yr un modd, mae'n gefnogol iawn i ymrwymiad y Cynllun i'r "angen i'r llywodraeth fod yn barod i weithredu ac arwain mewn meysydd megis datgarboneiddio a dangos ein bod yn benderfynol o greu seilwaith economaidd mwy cynaliadwy". (Tudalen 2)

Yn y cyd-destun hwn, rydym yn ymwybodol o'r datganiad a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei Hadroddiad ym mis Mai 2020 (Tudalen 594): "Gyda datblygiadau technolegol, datrysiadau carbon isel a mwy o arweinyddiaeth, gallwn drosglwyddo i system ynni sy'n seiliedig ar ynni adnewyddadwy, gan ddarparu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y wyddoniaeth a'r dechnoleg, mae'r cynnydd i weithredu datrysiadau carbon isel ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen wedi bod yn rhy araf".

Yn ogystal â'r Argyfwng Hinsawdd, a Pandemig Covid-19, mae Cymru hefyd yn wynebu'r ymdrechion sy'n gysylltiedig â'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Vattenfall yn ymwybodol iawn o'r tair her fawr hyn sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ar yr un pryd.

Er bod Vattenfall yn derbyn bod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth "yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, i wireddu mantais economaidd ac ehangach amgylcheddau adeiledig a naturiol Cymru", mae angen i Lywodraeth Cymru bellach "fod yn barod i weithredu".

Wrth wneud hynny, gall Vattenfall chwarae rhan bwysig i sicrhau bod lefel gyffredinol o gyfalaf naturiol cynaliadwy yn cael ei chynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Fel mewn-fuddsoddwr, rydym yn gefnogol iawn i gyhoeddiad cyntaf "Strategaeth Ryngwladol" Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, gan dynnu sylw at y 21 swyddfa y mae wedi'u sefydlu - o Tokyo i San Francisco.  Rydym yn falch bod derbyniad amlwg o'r ffordd y mae "ein ffyniant wedi dibynnu ers tro ar fasnach a mewnfuddsoddi gyda chyfleoedd presennol yn agor ledled y byd ac yma gartref" (Tudalen 3), ynghyd â'r "ymrwymiad clir" i "barhau i groesawu mewnfuddsoddiad, ac o bob sector o'r economi", (Tudalen 19); "tyfu ein heconomi drwy gynyddu allforion a chynyddu buddsoddiad a chreu swyddi a chyfleoedd newydd i bobl yng Nghymru". (Tudalen 25)

Mae'r datganiadau hyn yn cyd-fynd yn dda â rhai ar fewnfuddsoddi a gynhwysir yn: "Ffyniant i Bawb"; megis hwn ar Dudalen 5: "Mae ein hallforion a'n lefelau Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor (FDI) yn parhau i wneud argraff - hyd yn oed o gofio'r bygythiad o ddiffyg cytundeb pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein perfformiad allforio a'n lefelau FDI yn dangos yr hyder sydd gan y byd yn ansawdd busnesau, cynhyrchion a gwasanaethau Cymru. Mae hefyd yn dangos faint o werth y mae gwledydd eraill yn ei roi ar ein pobl ac ar ein lleoedd fel mannau delfrydol ar gyfer buddsoddiad gan fusnesau."

Mae Vattenfall yn barod i godi ei lefel fuddsoddi yng Nghymru i'r lefel uwch o lawer y mae'n ymrwymo iddi yn yr Alban. Bydd hyn yn galluogi iddo ddatblygu ffermydd gwynt newydd fel Pen-y-Cymoedd, ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae oedi parhaus gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wrth wahodd ceisiadau am brydlesi hefyd yn atal y cyfle i Vattenfall helpu i adeiladu Cyfoeth y Cymunedau yn y ffordd y mae wedi dangos yn glir ym Mhen-y-Cymoedd.

Mae'r cyferbyniad rhwng ein buddsoddiadau yn yr Alban o'u cymharu â Chymru yn drawiadol. Ym mis Ebrill eleni, gwnaeth Vattenfall benderfyniad buddsoddi o £320m i adeiladu fferm wynt South Kyle 240MW yn Ne-orllewin yr Alban. Bydd cyfran sylweddol o'r buddsoddiad hwn o fudd uniongyrchol i'r ardal, y rhanbarth a'r wlad. Byddai hwn yn benderfyniad buddsoddi pwysig iawn ar unrhyw adeg, ond mae effeithiau aruthrol covid-19 yn gwneud y math hwn o fuddsoddiad hyd yn oed yn fwy hanfodol. Gall yr Alban elwa'n uniongyrchol o'r prosiect hwn oherwydd ei huchelgais glir, ei bod wedi croesawu buddsoddiad a'i bod wedi creu'r cyfle, sef yn yr achos hwn ar dir coedwigaeth cyhoeddus.

Mae'r Alban wedi creu amgylchedd lle mae mewn sefyllfa dda iawn i drosglwyddo ynni i economi carbon isel a chynaeafu'r holl ganlyniadau cadarnhaol. Mae'r buddsoddiad yn y cadwyni cyflenwi, y cymunedau, y sgiliau a'r hyfforddiant sydd wedi digwydd, sydd yn digwydd heddiw ac a fydd yn digwydd yn y dyfodol wedi deillio o'u hymgyrch benodol.

Mae cyllideb datblygu ar y tir Vattenfall, yr arian a ddefnyddir i archwilio, datblygu a sicrhau cyfleoedd, yn cael eu pwyso'n helaeth ar hyn o bryd tuag at yr Alban ac mae'n adlewyrchiad o'r pethau cadarnhaol a amlinellir uchod. Gall canlyniadau llwyddiannus atgyfnerthu'n gadarnhaol. Yn y diwydiant gwynt ar y tir hyd yma, mae'r rhan fwyaf o lwyddiant wedi'i wireddu yn yr Alban. Felly, disgwylir mwy o lwyddiant yn yr Alban felly cyfarwyddir adnoddau yn unol â hynny. Mae hyn yn bwysig oherwydd, er gwaethaf potensial Cymru, mae buddsoddiad is na'r disgwyl yn cael ei wneud yng Nghymru. Y canlyniad yw nad yw'n glir ble, pryd a sut y bydd Cymru'n gallu cynaeafu llwyddiannau o'r newid i economi carbon isel. Mae'r sefyllfa mewn gwirionedd yn fwy difrifol na hynny, erbyn i gyfle i ddatblygu a buddsoddi ddod i'r amlwg, efallai na fydd cadwyn gyflenwi yng Nghymru a all adeiladu, gwasanaethu a chyflenwi'r prosiectau seilwaith hyn.

Yn y cyfamser, bydd Vattenfall yn parhau i gefnogi cymunedau a busnesau lleol o fewn Ardal Fudd Pen-y-Cymoedd, gan ei fod yn rhan annatod o'r ffordd y caiff y Cwmni ei arwain yn ei weithrediadau gan yr egwyddorion a'r ffyrdd o weithio a

gasglwyd drwy fabwysiadu chwech o Nodau Cynaliadwyedd y Cenhedloedd Unedig sy'n adleisio'r ymdrech dda a osodwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn y "Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol".

Os hoffai eich Pwyllgor gael rhagor o fanylion am ein proses ariannu ar gyfer Pen-y-Cymoedd, yna mae croeso i chi gysylltu â Kate Breeze yn y CIC: enquiries@penycymoeddcic.cymru.

Byddai'n bleser gan Vattenfall ymddangos gerbron eich Pwyllgor i roi tystiolaeth lafar pe bai hynny o gymorth i'ch ymgynghoriad.
Yn gywir



Frank Elsworth,
Pennaeth Datblygu Marchnad y DU – Ar y tir